Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Pedolwyr (Cofrestru) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **19 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

**Rheoliadau Pedolwyr (Cofrestru) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Deddfwriaeth Ddomestig

Deddfwriaeth Sylfaenol

- Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975 ("Deddf 1975")
- Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981")

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae Iechyd a Lles Anifeiliaid, sy'n cynnwys milfeddygaeth, yn swyddogaeth ddatganoledig.

**Diben y diwygiadau**
Diben yr OS (gweithdrefn gadarnhaol) yw dileu'r darpariaethau deddfwriaethol presennol sef Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 a wnaeth drosi Cyfarwyddebau 2005/36EC a 2013/55/EU - a adwaenir yn Gyfarwyddeb Cydnabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol - o "Ddeddf 1975"

Mae offeryn ar wahân, sef Rheoliadau Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 yn diwygio Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymhwyster Proffesiynol) 2015 fel na fydd pedolwyr o fewn cwmpas Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Yn hytrach, mae Rheoliadau Pedolwyr (Cofrestru) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cynnig diwygio Deddf 1975 er mwyn rhoi disgresiwn eang i'r Cyngor Cofrestru Pedolwyr, a sefydlwyd o dan Ddeddf 1975, mewn perthynas â chofrestru pedolwyr."

Bydd "Deddf 1981" yn cael ei diwygio er mwyn adlewyrchu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, gan roi "cyfraith yr UE a ddargedwir" yn lle "rhwymedigaethau'r UE".

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/MtHRLa9i

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975 a Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.